

**COFNOD O BENDERFYNIAD  
GWEITHREDOL A WNAED  
GAN YR ARWEINYDD**

**RECORD OF AN EXECUTIVE  
DECISION TAKEN BY THE  
LEADER**

Dyddiad Cyhoeddi/Publication Date - Dydd Mawrth/Tuesday, 1 Hydref/October, 2019

**PRIF WEITHREDWR/CHIEF EXECUTIVE**

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

### Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan Arweinydd y Cyngor

<b>1. GWNAED GAN</b>	Arweinydd y Cyngor
<b>2. Y PENDERFYNIAD</b>	I gyfeirio at y Cyngor Llawn penderfyniad mewn perthynas a chymeradwyo pwr dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio mewn cysylltiad â cheisiadau cydsynio sy'n cynnwys caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig neu'r hyn sy'n cyfateb i'w bennu gan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys negodi a chwblhau cytundebau rhwymedigaeth cynllunio.
<b>3. GWNAED AR</b>	1 Hydref 2019
<b>4. Y RHESYMAU AM Y PENDERFYNIAD</b>	Mae'r Cyfansoddiad yn nodi'r angen am gyfle i'r Pwyllgor Gwaith fynegi barn, petaent yn dymuno gwneud hynny, cyn i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad sy'n effeithio ar y Cyfansoddiad.
<b>5. DATGANIAD O DDIDDORDEB</b>	Dim
<b>6. CANIATAD ARBENNIG WEDI EI ROI?</b>	Dim/Dim yn berthnasol
<b>7. YMGYNGHORI, OS O GWBL</b>	Prif Weithredwr, Prif Weithredwr Cynorthwyol, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitor, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithol/Dirprwy Swyddog Monitro (Cyfreithiwr Cynllunio)
<b>8. YN AGORED I GAEL EI ALW I MEWN?</b>	Na  Y Cyngor Llawn fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar 7 Hydref 2019.

<b>DYDDIAD CYHOEDDI:</b>	1 Hydref 2019
<b>DYDDIAD GWEITHREDU:</b>	Gan nad yw'r penderfyniad yn agored i'w alw i mewn, bydd y dyddiad gweithredu yr un fath â'r dyddiad cyhoeddi.

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>Cofnod o'r penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>25 Medi 2019</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Dirprwyo awdurdod angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor gymryd rhan mewn ceisiadau fydd yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Cyng. Carwyn Elias Jones Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi</b>  <b>Cyng. Richard Dew Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Dylan J Williams Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Rhif Ffôn: E-bost:	<b>Annwen Morgan Prif Weithredwr</b>  <b>Dylan J Williams Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	

#### **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r canlynol:-

1. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ymgymryd â holl swyddogaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd, gan gynnwys caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig, neu gyfystyr, fydd yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys trafod a chwblhau cytundebau rhwymedigaethau cynllunio.
2. Caniatáu i swyddogion sydd yn derbyn yr awdurdod dirprwyedig a argymhellir uchod, ddirprwyo awdurdod ymhellach, ynghyd ag unrhyw gamau i'w cymryd dan yr awdurdod hwnnw, i unrhyw swyddog o'r Cyngor.

Mae nifer o gyfundrefnau caniatâd mewn lle sy'n caniatáu Gweinidogion Cymru i

benderfynu ar geisiadau fydd yn rhoi caniatâd i ddatblygiad wedi ei leoli yn ardal weinyddol Ynys Môn neu fydd yn cael effaith ar yr ardal honno. Maent yn cynnwys prosesau megis gwneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol sydd yn rhoi caniatâd cynllunio, a Gorchmynion Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd sydd yn cynnwys caniatâd cynllunio tybiedig. Fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio, mae CSYM yn dymuno sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan lawn yn y prosesau caniatâd hyn o fewn yr amserlenni a ganiateir. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion lle y gall caniatâd cynllunio neu ganiatâd cynllunio tybiedig gael ei roi a fyddai'n golygu wedyn fod y Cyngor yn gyfrifol am orfodi unrhyw amodau a osodir ar ganiatâd o'r fath.

Cytunwyd ar gynllun dirprwyo ar gyfer cyfraniad CSYM i archwiliad Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru'r National Grid) ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio'r un awdurdod dirprwyedig mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd ar gyfer unrhyw brosiect:

- a) sydd wedi eu cynnwys yn y deuddeg categori o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol fydd yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru yn dilyn newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Cymru 2017. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cynhyrchu ynni a datblygiadau yn ymwneud â meysydd awyr, rheilffyrdd, cronfeydd a chael gwared ar wastraff;
- b) fydd yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992;
- c) fydd yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru dan eu pwerau galw i mewn, lle mae'r prosiect yn brosiect mawr neu yn brosiect Ynys Ynni.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn parhau yn ymrwymedig i gyflawni'r Rhaglen Ynys Ynni sydd â'r nod o osod Ynys Môn ar flaen y gad o safbwynt ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes ynni carbon isel, gan sicrhau budd economaidd yn ei sgil. Mae'r Rhaglen Ynys Ynni'n cynnwys nifer o ddatblygiadau carbon isel posib, gan gynnwys adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa Newydd, prosiect Ynni Môr Morlais, MINESTO Deep Green a datblygiadau solar posib.

Mae nifer o'r prosiectau hyn ar fin symud o'r cyfnod datblygu i'r camau derbyn caniatâd. Rhagwelir y bydd Ynni Môr Morlais yn cyflwyno cais am ganiatâd dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ganol mis Medi.

Er mwyn sicrhau fod CSYM yn gallu cymryd rhan lawn yn y broses ganiatâd, mae'n hanfodol cytuno ar ddull i awdurdodi dogfennau a sylwadau sydd ynghlwm â'r broses. Bydd hyn yn cynnwys rhoi'r trefniadau dirprwyo angenrheidiol mewn lle i alluogi CSYM i ymateb i'r dyddiadau cau heriol. Oherwydd newidiadau yn strwythur a phersonél CSYM,

argymhellir bod y trefniadau dirprwyo presennol yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ac i sicrhau fod trefniadau dirprwyo priodol mewn lle.

Ac eithrio Gorchymyn Caniatâd Datblygu prosiect Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru'r National Grid, mae'r broses o ymateb i ymgynghoriadau allweddol cyn cyflwyno cais wedi golygu bod rhaid i CSYM gyflwyno drafftiau terfynol i'r Cyngor Llawn a cheisio cymeradwyaeth Aelodau Etholedig. Roedd ceisiadau i ddirprwyo awdurdod yn y gorffennol yn cynnwys cais i Aelodau Etholedig ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr wneud unrhyw fân newidiadau, addasiadau neu gywiriadau a nodwyd, ac a oedd yn rhesymol angenrheidiol, cyn delio gyda materion ffurfiol ynghlwm â'r ymateb. Er i'r ymagwedd hon fod yn effeithiol yn ystod cyfnodau cyn cyflwyno cais mewn perthynas â phrosesau amrywiol, mae'r hyn a ddysgwyd o'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu Wylfa Newydd a'r National Grid wedi dangos na fydd yr amserlen cyn ac yn ystod y cyfnod o roi ystyriaeth ffurfiol i'r ceisiadau y rhagwelir y byddant yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol yn caniatáu amser digonol i ddilyn y drefn hon o ofyn am gymeradwyaeth.

Bydd rhaid cyflwyno'r mwyafrif o'r sylwadau yn ystod y prosesau caniatâd a nodwyd o fewn amser byr er mwyn cyfarfod â'r amserlen a nodwyd. Mae nifer o'r dyddiadau cau sy'n rhan o'r broses caniatâd yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ac nid oes gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol am redeg yr achos y grym i'w newid, hyd yn oes os yw'r ymgeisydd neu CSYM yn gofyn am hynny.

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol ymgymryd â holl swyddogaethau statudol y Cyngor fel Awdurdod Lleol ac Awdurdod Cynllunio wrth ymateb i benderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd a wneir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y ddau achos o ddirprwyo awdurdod yn cael eu gweithredu dan drosolwg strategol parhaus y Prif Weithredwr. Yn hytrach na gofyn am gymeradwyaeth Aelodaeth, bydd hyn yn caniatáu dirprwyo awdurdod i uwch reolwyr perthnasol gymeradwyo'r polisïau a'r egwyddorion i'w mabwysiadu ac i gwblhau'r manylion yn unol â'r polisïau a'r egwyddorion hynny ac i gyflwyno dogfennau. Gall yr awdurdod dirprwyedig a argymhellir, ac unrhyw gamau a gymerir yn unol â hynny, gael ei ddirprwyo ymhellach i unrhyw swyddog o'r Cyngor gan y swyddog penodedig. Mae angen y gallu i ddirprwyo ymhellach er mwyn caniatáu i swyddogion gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol mewn gwrandawiadau ac i gytuno ar faterion mewn gwrandawiadau o'r fath.

Mae'r swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn argymhell dirprwyo awdurdod iddynt wedi bod ynghlwm â'r prosiectau y ceisir caniatâd yn eu cylch mewn rolau gwahanol mewn perthynas â'r ystyriaethau statudol. Dylai swyddogion sydd yn gweithredu'r awdurdod dirprwyedig hwn, yn arbennig ar yr ochr statudol, ei gwneud yn glir yn eu penderfyniad pa

gyngor a gwybodaeth y maent wedi ei hystyried a pha bwys a roddwyd i hynny wrth wneud y penderfyniadau, er mwyn sicrhau tryloywder ac i sicrhau bod penderfyniadau yn gyfreithiol gadarn, drwy nodi'r ystyriaethau materol perthnasol y rhoddyd ystyriaeth iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofynion arferol ar gyfer gwneud nifer o benderfyniadau o dan bwerau statudol ac ni ddylai osod unrhyw faich afresymol ar swyddogion.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ar hyn o bryd, nid yw nifer o swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â chymryd rhan yn y prosesau hynny lle mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yn cael eu dirprwyo ac, o ganlyniad, maent yn cael eu clustnodi i'r Cyngor Llawn. Mae angen rhyw ffurf o ddirprwyaeth i ganiatáu i'r Cyngor gyfarfod ag amserlenni'r broses gwneud penderfyniadau. Ystyrir bod yr opsiynau a argymhellir yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng ceisio cymeradwyaeth Aelodau ar egwyddorion allweddol a phenderfyniadau ar bolisi y bydd angen eu gwneud drwy gydol y broses ar y naill law, a chaniatáu i swyddogion gymeradwyo dogfennau terfynol i sicrhau y gellir cyflwyno ymatebion yn unol â'r amserlen ar y llaw arall. Mae Swyddogion angen awdurdod dirprwyedig er mwyn gallu cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol yn y broses, er enghraifft, mewn gwrandawiadau llafar.

Gweithredwyd yr ymagwedd a argymhellir o ran dirprwyo awdurdod yn llwyddiannus yn ystod ymwneud CSYM â phroses Gorchymyn Caniatâd Datblygu Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru'r National Grid.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Penderfyniad i'r Cyngor llawn yw hwn yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Nid yw hyn yn berthnasol gan fod gofyn i'r Cyngor llawn am benderfyniad.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**

**Beth oedd eu sylwadau?**

1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)</b> (mandadol)	UDA yn gefnogol i'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad.
2	<b>Cyllid / Adran 151</b> (mandadol)	Cefnogol i'r argymhellion yn yr adroddiad.
3	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro</b> (mandadol)	Mae'r trefniadau dirprwyo a gynigir yn gyfreithiol gadarn a'r ffordd fwyaf pragmataidd o ddiogelu diddordeb y Cyngor/Ynys Môn tra'n galluogi Aelodau hefyd i barhau i wneud y penderfyniadau strategol a pholisi perthnasol.
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</b>	
7	<b>Caffael</b>	
8	<b>Sgriwtini</b>	
8	<b>Aelodau Lleol</b>	
9	<b>Unrhyw gyrff allanol eraill</b>	

<b>E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
1	<b>Economaidd</b>	
2	<b>Gwrthdodi</b>	
3	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	
4	<b>Amgylcheddol</b>	
5	<b>Cydraddoldeb</b>	
6	<b>Cytundebau Canlyniad</b>	
7	<b>Arall</b>	

<b>F - Atodiadau:</b>

<b>FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>



